Athro/Athrawes Gwyddoniaeth

Cyfeirnod y Swydd: YYGC00266W1RDE
Lleoliad: Ysgol Glan Clwyd
Cyflog: Graddfa Cyflog Athro
Oriau: *Gellir ystyried Llawn Amser neu Rhan Amser *
Math o gytundeb: Parhaol i ddechrau 01/01/2022 neu cyn gynted â bo modd o fewn cyfyngiadau cyfnodau rhybbudd.

Mae Ysgol Glan Clwyd yn awyddus i benodi Athro/Athrawes Gwyddoniaeth i sicrhau darpariaeth gorau phosib i ddisgyblion yr ysgol a'r awyrgylch gweithio orau i holl staff.

Mae'r ysgol yn un arloesol sydd yn rhoi bri ar addysgu a dysgu o'r ansawdd uchaf. Rydym yn ffodus iawn o'n adeilad a'n cyfleusterau sydd yn caniatau amgylchedd ddysgu sydd yn ysbrydoli addysg.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus addysgu Gwyddoniaeth i bob oed a gallu. Mi fydd cyfle i ddysgu CA4 a CA5 o fewn y maes Wyddoniaeth berthnasol. Mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn medru cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig ynghyd â dangos ymrwymiad amlwg tuag at weithio mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.

***Gall oriau terfynol y swydd fod yn hyblyg, yn ddibynnol ar sefyllfa yr ymgeisydd llwyddiannus.**

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â'r Pennaeth Mr Gwyn Tudur ar 01745 582611.

Dyddiad Cau: Dydd Mercher 24/11/21

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein trwy gwefan Sir Ddinbych www.sirddinbych.gov.uk/. Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â Rhian Davies ar 01745 582611 neu drwy e-bost swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk
Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael ei ystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos I'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiatáol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

This Advert is for a Science Teacher at Ysgol Glan Clwyd for which the ability to speak Welsh is an essential requirement

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.

RHAN 12 - AMODAU CYFLOGAETH ATHRAWON HEBLAW PENAETHIAID

Teitl y Swydd:	Athro / Athrawes
Graddfa:	Graddfa Cyflog athrawon
Gwasanaeth:	Ysgolion
Yn gyfrifol i:	Pennaeth
Rhif y Swydd:	01746

Ymarfer dyletswyddau proffesiynol cyffredinol

70.1 Yn amodol ar baragraffau 42.6 a 45.2 bydd athro, nad yw'n bennaeth, yn ymgymryd â dyletswyddau proffesiynol athro yn unol â gofynion yr amgylchiadau ar y pryd:

70.1.1 os yw'n cael ei gyflogi fel athro mewn ysgol, o dan gyfarwyddyd rhesymol pennaeth yr ysgol honno;

70.1.2 os yw'n cael ei gyflogi gan Awdurdod ar delerau lle nad yw wedi'i benodi i unrhyw un ysgol benodol, o dan gyfarwyddyd rhesymol yr awdurdod hwnnw a phennaeth unrhyw ysgol y bydd yn gweithio ynddi am gyfnod fel athro.

70.2 ni chaniateir i athro sydd wedi methu â chwblhau ei gyfnod sefydlu yn foddhaol ac sy'n cael ei gyflogi yn unol â rheoliad 18(5) o Reoliadau Sefydlu Lloegr neu reoliad 16(5) o Reoliadau Sefydlu Cymru gyflawni dim ond y fath ddyletswyddau cyfyngedig ag y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn eu pennu, yn unol â'r rheoliad hwnnw.

Arfer dyletswyddau penodol

71.1 Yn amodol ar baragraffau 42.6, 45.2, 45.3, a 71.2 , bydd athro sy'n cael ei gyflogi fel athro (ar wahân i bennaeth) mewn ysgol, yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd y gellir yn rhesymol ei roi iddo gan y pennaeth o dro i dro, yn cyflawni'r fath ddyletswyddau penodol ag y gellir yn rhesymol eu neilltuo iddo

71.2 Bydd athro sy'n cael ei gyflogi gan awdurdod ar delerau tebyg i'r rhai a ddisgrifir ym mharagraff 70.1.2

71.3 Yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd y gellir yn rhesymol ei roi iddo o dro i dro gan yr awdurdod neu bennaeth unrhyw ysgol lle bydd am gyfnod yn gweithio fel athro, yn cyflawni'r fath ddyletswyddau penodol ag y gellir yn rhesymol eu neilltuo iddo

Dyletswyddau proffesiynol

72. Yn amodol ar baragraffau 42.6, 45.2 a 45.3, bydd y dyletswyddau canlynol yn cael eu cynnwys yn y dyletswyddau proffesiynol y bydd gofyn i athro (ond nid pennaeth) eu cyflawni-

Dysgu

72.1 Ym mhob achos, gan dalu sylw i gwricwlwm yr ysgol, a gyda'r nod o hyrwyddo a datblygu gallu a thueddfryd y disgyblion mewn unrhyw ddosbarth neu grŵp sy'n cael ei aseinio iddo –

72.1.1 Cynllunio a pharatoi cyrsiau a gwersi

72.1.1 Cynllunio a pharatoi cyrsiau a gwersi; Version 2.0 FC

7.1.2 Dysgu, yn unol â'u hanghenion addysgol, y disgyblion a aseinir iddo, gan gynnwys gosod a marcio'r gwaith sydd i'w wneud gan y disgyblion yn yr ysgol ac mewn mannau eraill;

72.1.3 Asesu, cofnodi ac adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion;

Gweithgareddau eraill

72.2.1 Hyrwyddo cynnydd cyffredinol a lles disgyblion unigol ac unrhyw ddosbarth neu grŵp o ddisgyblion a neilltuir iddo;

72.2.2 Darparu arweiniad a chyngor i ddisgyblion ynghylch materion addysgol a chymdeithasol ac ynghylch eu haddysg bellach a'u gyrfaoedd, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch ffynonellau o gyngor mwy arbenigol ynglŷn â chwestiynau penodol, cadw cofnodion ac adroddiadau perthnasol;

72.2.3 Cadw cofnodion ac adroddiadau ynghylch anghenion personol a chymdeithasol disgyblion;

72.2.4 Cyfathrebu ac ymgynghori gyda rhieni disgyblion;

72.2.5 Cyfathrebu a chydweithredu gyda phobl neu gyrff y tu allan i'r ysgol

72.2.6 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer unrhyw bwrpas a ddisgrifir uchod;

Asesiadau ac adroddiadau

72.3 Darparu neu gyfrannu tuag at asesiadau, adroddiadau a geirdaon, llafar neu ysgrifenedig, ynghylch disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion;

Gwerthuso neu adolygu perfformiad

72.4 Cymryd rhan mewn trefniadau a wnaed yn unol â Rheoliadau 2002 neu Reoliadau 2006 ar gyfer gwerthuso neu adolygu ei berfformiad ei hun a pherfformiad athrawon eraill;

Adolygu, sefydlu, hyfforddiant pellach a datblygu

72.5.1 Adolygu o dro i dro ei ddulliau o ddysgu a'i raglenni gwaith;

72.5.2 Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer ei hyfforddiant pellach a'i ddatblygiad proffesiynol fel athro gan gynnwys ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ar gyfer diwallu anghenion a nodwyd mewn datganiad o amcanion neu mewn datganiadau gwerthuso lle mae athrawon yn destun Rheoliadau 2002, neu mewn datganiadau cynllunio ac adolygu pan fo athrawon yn destun Rheoliadau 2006;

72.5.3 Yn achos athro sy'n gwasanaethu yn ystod cyfnod sefydlu yn unol â'r Rheoliadau Sefydlu, cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer ei oruchwyliaeth a'i hyfforddiant

Dulliau Addysgu

72.6 Cynghori a chydweithredu gyda'r pennaeth ac athrawon eraill (neu unrhyw un neu fwy ohonynt) ynghylch paratoi a datblygu cyrsiau o astudio, defnyddiau dysgu, rhaglenni dysgu, dulliau o ddysgu ac asesu trefniadau bugeiliol;

Disgyblaeth, iechyd a diogelwch

72.7 Cynnal trefn a disgyblaeth dda ymysg disgyblion a diogelu eu hiechyd a'u diogelwch pan maen nhw wedi'u hawdurdodi i fod ar eiddo'r ysgol a phan maen nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol awdurdodedig rywle arall

Cyfarfodydd staff

72.8 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd yn yr ysgol ynghylch cwricwlwm yr ysgol neu weinyddiaeth neu drefniadaeth yr ysgol, gan gynnwys trefniadau bugeiliol;

Llanw

72.9.1 Yn amodol ar is baragraff 9.2 o'r paragraff hwn, arolygu a, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, dysgu unrhyw ddisgyblion nad yw eu hathro ar gael i'w dysgu;
72.9.2 Ac eithrio yn achos athro sy'n cael ei gyflogi'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu gwaith llanw, ni fydd gofyn i unrhyw athro ddarparu gwaith llanw am fwy na 38 awr mewn unrhyw flwyddyn ysgol;

Arholiadau allanol

72.10.1 Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau allanol, asesu disgyblion ar gyfer yr arholiadau hynny a chymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer presenoldeb disgyblion yn, a chynnal, arholiadau o'r fath;
72.10.2 Nid yw is baragraff 10.1 o'r paragraff hwn yn golygu fod yn rhaid i athro bob amser gymryd rhan mewn trefniadau nad ydynt y gofyn am arfer sgiliau a barn broffesiynol athro, megis goruchwylio;

Rheoli

72.11.1 Cyfrannu tuag at ddethol athrawon eraill ar gyfer penodiad a thuag at ddatblygiad proffesiynol athrawon eraill a staff cefnogi, gan gynnwys sefydlu ac asesu athrawon newydd ac athrawon ar gyfnodau sefydlu yn unol â'r Rheoliadau Sefydlu;
72.11.2 Cynorthwyo'r pennaeth i gynnal asesiadau trothwy perthnasol i athrawon eraill y mae ganddo gyfrifoldebau rheoli drostynt;
72.11.3 Cydlynu neu reoli gwaith staff eraill;
72.11.4 Cymryd rhan fel y bydd yn ofynnol iddo mewn adolygu, datblygu a rheoli gweithgareddau cysylltiedig â chwricwlwm, trefniadaeth a swyddogaethau bugeiliol yr ysgol;

Gweinyddiaeth

72.12.1 cymryd rhan yn y tasgau gweinyddol a threfniadol perthnasol i'r dyletswyddau a ddisgrifir uchod, gan gynnwys cyfarwyddo neu arolygu unigolion sy'n darparu cymorth i athrawon yn yr ysgol; a

72.12.2 mynychu gwasanaethau boreol, cofrestru presenoldeb disgyblion ac arolygu disgyblion, pa un a yw'r dyletswyddau hynny i'w perfformio cyn, yn ystod neu ar ôl sesiynau ysgol.

72.12.3 nid yw is baragraff 12.1 o'r paragraff hwn yn golygu ei bod yn ofynnol i athro fel mater o drefn ymgymryd â thasgau o natur glerigol neu weinyddol nad ydynt y gofyn am arfer sgiliau a barn broffesiynol athro.

72.12.4 Heb ragfarn i gyffredinolrwydd is baragraff 12.3 o'r paragraff hwn, mae Atodiad 3 yn cynnwys rhestr o dasgau sy'n disgyn o fewn cwmpas y paragraff hwnnw.

Rheoli amser

73. Bydd gan athro gyda chyfrifoldebau arwain neu reoli hawl, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, i gyfnod rhesymol o amser yn ystod sesiynau'r ysgol i ymgymryd â'r cyfrifoldebau hynny.

Amser gweithio

74.1 Nid yw darpariaethau'r paragraff hwn yn berthnasol i ddirprwy benaethiaid, penaethiaid cynorthwyol, athrawon gydag uwch sgiliau nac i athrawon sy'n cael eu cyflogi i ddysgu'n rhan amser ac sy'n dod o dan ddarpariaethau paragraffau 42.6, 45.2 a 45.3.

74.2 Bydd athro sy'n cael ei gyflogi'n llawn amser, ar wahân i'r amgylchiadau a ddisgrifir yn is baragraff 4 y paragraff hwn, ar gael i weithio am 195 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn ysgol, a bydd gofyn iddo ddysgu disgyblion am 190 diwrnod yn ogystal ag ymgymryd â dyletswyddau eraill a bydd yr 195 diwrnod hynny'n cael eu pennu gan ei gyflogwr neu, os mai hynny yw dymuniad ei gyflogwr, gan y pennaeth.

74.3 Bydd y fath athro ar gael i ymgymryd â'r fath ddyletswyddau ar y fath adegau ac yn y fath leoliadau a fydd yn cael eu pennu gan y pennaeth (neu, os nad yw athro wedi'i neilltuo i un ysgol benodol, gan ei gyflogwyr neu gan bennaeth unrhyw ysgol y mae gofyn iddo ar y pryd weithio ynddi fel athro) am 1265 awr mewn unrhyw flwyddyn ysgol, gyda'r oriau hynny i'w dyrannu'n rhesymol ar draws y dyddiau hynny yn y flwyddyn ysgol pan fo gofyn iddo fod ar gael i weithio.

74.4 Nid yw is baragraff 2 y paragraff hwn yn berthnasol i unrhyw athro sy'n cael ei gyflogi'n gyfan gwbl neu'n rhannol i gyflawni dyletswyddau eraill perthnasol i ddisgyblion mewn sefydliadau preswyl.

74.5 Ni fydd amser teithio i neu o'r man gwaith yn cyfrif tuag at y 1265 awr y cyfeirir atynt yn is baragraff 3 o'r paragraff hwn.

74.6 Ni fydd gofyn i athro o'r fath o dan ei gontract fel athro ymgymryd â goruchwyliaeth canol dydd a bydd caniatâd iddo gael egwyl o gyfnod rhesymol un ai rhwng sesiynau'r ysgol neu rhwng 12 hanner dydd a 2.00pm.

74.7 Bydd athro o'r fath, yn ychwanegol at y gofynion a nodir yn is baragraffau 2 a 3 o'r paragraff hwn, yn gweithio'r nifer rhesymol o oriau ychwanegol sy'n angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau proffesiynol yn effeithiol, gan gynnwys, yn benodol, ei ddyletswyddau o dan baragraffau 72.1.1 a 72.1.3. Ni fydd nifer yr oriau sydd eu hangen i'r diben hwn y tu hwnt i'r 1265 awr y cyfeirir atynt yn is baragraff 3 o'r paragraff hwn na'r amser y tu allan i'r 1265 o oriau penodol y mae'r dyletswyddau i'w perfformio, yn cael eu diffinio gan y cyflogwr.

Amser cynllunio a pharatoi gwarantedig

75.1 Bydd gan athro y mae paragraff 74 yn berthnasol iddo hawl, fel rhan o'r 1265 awr y cyfeirir atynt ym mharagraff 74.3, i gyfnodau rhesymol i'w alluogi i ysgwyddo ei gyfrifoldebau o dan baragraffu 72.1.1, 72.1.3 a 72.3.

75.2 Ni fydd amser cynllunio a pharatoi yn llai na 10% o amser dysgu ar amserlen athro (ac ar gyfer hyn ystyr "amser dysgu ar yr amserlen" yw cyfanswm yr amser ar amserlen yr ysgol sydd wedi'i ddynodi gan y pennaeth i'r athro ar amserlen yr ysgol ar gyfer dysgu disgyblion)

75.3 Bydd amser cynllunio a pharatoi'n cael ei ddarparu mewn unedau o ddim llai na hanner awr yn ystod y rhannau hynny o amserlen yr ysgol y mae disgyblion yn cael eu dysgu yn y pynciau craidd a phynciau sylfaen eraill neu addysg grefyddol.

75.4 Ni fydd gofyn i athro o'r fath ysgwyddo unrhyw gyfrifoldebau eraill, gan gynnwys darparu llanw yn unol â pharagraff 72.9, yn ystod ei amser cynllunio a pharatoi.

75.5 Mae is baragraffau 1 i 3 o'r paragraff hwn hefyd yn berthnasol i athro dosbarth sy'n cael ei gyflogi'n rhan amser ond gan newid y 1265 awr yn is baragraff 1 i'r nifer, fel cyfran o'r 1265 awr, sy'n hafal i gyfran o wythnos yr ysgol y mae'r athro'n ei weithio fel arfer.

MANYLION AM YR UNIGOLYN CYNGOR SIR DDINBYCH			
Mae'r adran hon yn nodi'r sgiliau, gwybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd hon yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses gyfweld. Fe ddylai eich ffurflen gais ddangos sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Dim ond os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol os yn berthnasol) y byddwch yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer.			
Teitl y Swydd:	**Athro/Athrawes**		
Gwasanaeth	**Ysgol Glan Clwyd**		
Graddfa:	**Cyflog Ystod Athro**		
MEINI PRAWF	**HANFODOL**	**DYMUNOL**	**DULL ASESU** Ffurflen Gais / Cyfweliad / Cyflwyniad / Geirda ac ati
1. ADDYSG A CHYMWYSTERAU	Athro / athrawes gymwysedig Gradd Anrhydedd dda mewn maes perthnasol i'r pwnc Tystiolaeth addas o hyfforddiant mewn swydd.	Y gallu i ddysgu maes perthnasol hyd at Safon Uwch Gradd Uwch	Ffurflen Gais
2. PROFIAD PERTHNASOL	Sgiliau ysgrifenedig a chyflwyno gwych. Profiad o weithio â disgyblion o bob gallu Gallu i weithio yn effeithiol fel aelod o dîm.	Profiad o ddysgu mewn ysgol uwchradd. Profiad o ddysgu Cwrs Safon Uwch Profiad o weithio gydag athrawon eraill i godi safonau cyrhaeddiad disgyblion.	Ffurflen Gais / Cyfweliad
3. GWYBODAETH A SGILIAU CYSYLLTIEDIG Â'R SWYDD	Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r datblygiadau diweddaraf yn eich maes addysgu. Dealltwriaeth o nodweddion addysgu ardderchog yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3, 4, 5.	Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r datblygiadau diweddaraf o fewn addysg Anghenion Dysgu Ywchanegol	Ffurflen Gais / Cyfweliad

	Athro/athrawes ardderchog sy'n gallu ysbrydoli disgyblion Sgiliau rhyngbersonol ardderchog Sgiliau TGCh da iawn a'r gallu i ddefnyddio TGCh i wella dysgu ac addysgu Gallu i gymell disgyblion i gyflawni eu potensial Sgiliau trefnu a gweinyddu da – gallu cadw at amserlenni Defnydd hyderus o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.		
4. RHINWEDDAU PERSONOL	Diwyd, hunan ddibynol, trefnus, egniol ac arloesol. Agwedd bositif a'r gallu i flaenoriaethu. Y gallu i sefydlu perthynas proffesiynol dda hefo staff, disgyblion, rhieni a grwpiau eraill. Ymwybyddiaeth o'r gymuned ac ymglymiad at fywyd ehangach ysgol. Yn fodlon cwblhau prosesu hunan werthusai, i ddysgu a datblygu.		Ffurflen Gais / Cyfweliad

5. GOFYNION ERAILL	Safon ardderchog o Gymraeg, a Saesneg ysgrifenedig		Ffurflen Gais / Cyfweliad